Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon**

**Resicare Ltd**
**Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon**
**Ffordd Caernarfon**
**Y Felinheli**
**LL56 4NX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Resicare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 57 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Ionawr 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried themâu llesiant, gofal a chymorth, yr amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Ni all y bobl fod yn hyderus bod systemau a phrosesau digonol ar waith er mwyn galluogi goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom gyhoeddi chwe Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth a thynnu sylw at un maes i'w wella. Yn ystod yr arolygiad hwn, roedd un Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi'i fodloni a chyhoeddwyd dau Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth newydd. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi ymgysylltu ag AGC drwy gydol y broses arolygu.

Mae rhai o'r bobl o fewn y gwasanaeth a all gyfleu eu hanghenion wedi cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt ond nid yw hyn yn wir am bawb. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r staff yn gadarnhaol ac yn barchus. Mae angen gwneud gwelliannau o ran hyfforddiant y staff a'r broses o recriwtio staff. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu cwblhau'n amserol, eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod y bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio. Nid yw'r cofnodion gofal bob amser yn gywir nac yn gyson i ddangos pa ofal a chymorth a ddarparwyd neu pa gamau a gymerwyd pan fo anghenion yn newid.

Mae angen gwella'r arferion ar gyfer rheoli heintiau. Mae digon o le yn y cartref ac mae'r lolfa a'r ystafell fwyta wedi cael eu hadnewyddu yn ddiweddar. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Nid oes gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd bob amser. Gwelsom gydberthnasau cadarnhaol a chynhesrwydd rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n byw yn y cartref a oedd yn cael eu trin â chwrteisi a charedigrwydd. Nid oedd tystiolaeth i ddangos bod y bobl yn cael bath a chawod, a dywedodd un person y byddai wrth ei fodd yn cael bath ond nad oedd wedi cael un.

Nid yw anghenion corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl yn cael eu diwallu bob amser.
Nid yw anghenion gofal a chymorth y bobl yn gwbl hysbys cyn iddynt gael eu derbyn i'r gwasanaeth, ac nid yw'r cynlluniau personol yn ddigon manwl. Mae angen gwneud gwelliannau o ran y staff yn darparu help gyda hylifau, atchwanegiadau bwyd ac ail-leoli. Caiff y bobl fudd o amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a hamdden o'u dewis. Caiff y bobl eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd ac maent yn gweld gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn modd amserol.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Caiff gwybodaeth gyfrinachol ei storio'n wael. Gwelsom nifer o ffeiliau gofal a gwybodaeth sensitif arall a oedd wedi'u gadael yn y lolfa ac yn y coridorau. Mae'r bobl nad oes ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Fodd bynnag, roedd un cais diweddar ar gyfer preswylydd newydd wedi cael ei gwblhau gan aelod o staff nad oedd wedi gweithio yn y gwasanaeth am gyfnod hir o amser. Mae'r arferion atal a rheoli heintiau yn parhau'n wael ac mae angen eu gwella. Mae'r trefniadau hyfforddiant ar gyfer y staff yn parhau'n annigonol ac mae angen eu gwella.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac nad yw'n ddiogel. Mae'r gwaith adnewyddu yn y lolfa a'r ystafell fwyta bellach yn cynnig profiad cartrefol a chroesawgar i'r bobl. Caiff drysau cypyrddau glanhau ac ardaloedd storio clinigol eu gadael heb eu cloi. Mae cynhyrchion ymolchi yn dal i gael eu rhannu at ddefnydd pawb, ac mae'r coridorau'n anniben. Roedd cyflwr rhai o'r ystafelloedd a welsom yn wael, gyda staeniau ar y carpedi ac arogl amlwg.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Nid yw'r bobl yn cael y gofal cywir, ar yr adeg gywir nac yn y ffordd y dymunant bob amser. Ni chaiff y cofnodion archwilio hylif eu cynnal yn effeithiol ac maent yn dangos nad oedd hanner y preswylwyr yn cael cymorth digonol gan y staff gyda'u cymeriant hylif ar sawl diwrnod. Nid oedd y nyrsys yn cymryd camau gweithredi digonol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael digon i yfed. Mae angen parhau i wella'r broses o gofnodi'r amseroedd gwirioneddol lle y caiff y bobl eu hail-leoli. Ni chaiff gorchuddion briwiau pwyso eu newid fel y'i rhagnodwyd. Rydym yn parhau i weld nad oedd meddyginiaeth argroenol yn cael ei rhoi yn unol â'r cyfarwyddyd. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Nid yw'r bobl yn cael gofal priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bob amser. Gwelsom weithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yn ystod yr arolygiad, yr oedd llawer o'r preswylwyr yn mwynhau cymryd rhan ynddynt. Roedd yn well gan eraill beidio â chymryd rhan, ac roedd eu lleisiau yn cael eu clywed a'u parchu.  Clywsom sawl achos lle roedd y staff yn siarad â'r bobl mewn ffordd gwrtais a pharchus. Gwelsom nad oedd nifer o'r clychau galw o fewn cyrraedd y bobl, a gwelsom achos lle roedd un person mewn gofid ac angen cymorth. Gwnaethom bwyso'r gloch alw ond ni wnaeth yr un aelod o'r staff ymateb a bu'n rhaid i'r arolygydd ymyrryd er mwyn dod o hyd i gymorth i'r person.  Roedd person arall, a oedd yn gaeth iawn ei anadl, wedi'i osod yn wastad ar ei gefn ac yn ei chael hi'n anodd.  Dywedodd aelod o'r staff y byddai'n atgoffa aelodau eraill o'r staff y dylid gosod y person hwn yn unionsyth.

Ni chaiff y bobl eu cefnogi gan weithwyr gofal sydd â'r wybodaeth sydd ei hangen i ddarparu'r gofal a'r cymorth cywir. Mae asesiadau risg priodol ar waith i gofnodi sut y caiff risgiau i ddiogelwch a nodwyd y bobl eu rheoli. Nid yw'r asesiadau cyn derbyn yn cael eu cwblhau'n llawn ac nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion cyn i berson symud i mewn i'r cartref, felly ni chaiff gwybodaeth bwysig am anghenion y bobl ei chasglu. Mae cynlluniau personol ar goll, ac nid yw rhai eraill yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac nid oeddent yn cynnwys cyfraniad gan yr unigolyn na'i gynrychiolydd. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Nid yw'r systemau na'r prosesau sydd ar waith i nodi ac ymdrin â risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn ddigon cadarn. Mae'r brif lolfa a'r ardal fwyta wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar. Mae'r ardaloedd hyn yn groesawgar, yn gartrefol ac yn olau ac mae bellach ardaloedd gwahanol ar gael i'r bobl eistedd gyda'u ffrindiau a'u hymwelwyr neu i eistedd mewn ardal dawelach. Nid yw'r amgylchedd mor ddiogel ag y gallai fod. Gwelsom nifer o ystafelloedd lle y dylid eu cadw dan glo ar agor ac nad oedd cyfarpar yn cael ei storio'n gywir. Gwnaethom nodi meysydd a oedd yn peri pryder yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â staeniau ar y carpedi ac arogleuon drwg mewn rhai ystafelloedd. Mae siartiau tymheredd dŵr ar waith, ond nid ydynt yn cael eu cwblhau cyn i'r bobl gael cawod. Mae rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud; fodd bynnag, rydym yn parhau i nodi'r pryderon hyn yn ystod yr arolygiad hwn. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Nid yw'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan digonol nac yn rheoli'r risg o haint. Gwelsom fod Cyfarpar Diogelu Personol wedi cael eu gwaredu mewn biniau gwastraff anghlinigol er bod biniau clinigol wedi'u lleoli wrth eu hymyl. Gwelsom gynhyrchion ymolchi at ddefnydd pawb mewn ystafelloedd ymolchi unwaith eto yn ystod yr arolygiad hwn. Nid oedd sedd ar un o'r toiledau ac roedd marciau crafu ar un arall. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Ni all y bobl fod yn hyderus y bydd eu gofal personol a gwybodaeth sensitif arall yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwelsom nifer o achosion lle roedd mesurau diogelu data yn cael eu torri, gan gynnwys sawl ffeil gofal yn ardal y lolfa gymunedol, y coridorau ac mewn cypyrddau. Mae rhifau ystafelloedd y bobl a chyfarwyddiadau ar bryd y dylid eu hail-leoli i'w gweld yn y coridor, a gwelsom ddogfennau yn y lolfa gymunedol lle roedd y staff wedi cofnodi pwy oedd wedi cael eu golchi gan y staff nos. Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall yr angen am gyfrinachedd mewn perthynas â dogfennau o'r fath. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Fodd bynnag, nid yw'n goruchwylio'r gwasanaeth ac nid yw wedi nodi'r methiannau parhaus a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, megis cynlluniau personol, arferion atal a rheoli heintiau, hyfforddiant a methiannau o ran asesiadau cyn derbyn gwael a recriwtio staff. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi ymgysylltu â'r rheoleiddiwr drwy gydol yr arolygiad ac felly, nid ydym wedi gallu rhoi adborth ffurfiol ar yr arolygiad.   Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Mae'r gwiriadau recriwtio yn annigonol ac nid ydynt yn ddigon cadarn. Gwnaethom edrych ar sawl ffeil personél y staff a chanfod nad oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi cael ei chasglu. Nid oedd rhai o ffeiliau'r staff yn cynnwys dau eirda ac roedd gan eraill ddau eirda gan eu cydweithwyr ac nid gan eu cyflogwr blaenorol. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu cynnal cyn i'r staff ddechrau yn eu swydd; fodd bynnag, gwnaethom nodi yn ystod yr arolygiad nad oedd gwiriad Datgelu a Gwahardd yr unigolyn cyfrifol yn gyfredol mwyach a gwnaed cais newydd wedi i'r arolygydd wneud ymholiadau. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r gydymffurfiaeth â hyfforddiant y staff yn parhau'n wael. Mae angen cymryd camau o hyd i ddatblygu'r staff a'r hyfforddiant a fydd yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol iddynt gyflawni eu rolau gofal yn effeithiol.  Codwyd hyn yn ystod y ddau arolygiad diwethaf. Mae'r cofnodion yn dangos pryd y mae angen adnewyddu hyfforddiant y staff ac nid y dyddiad y bu iddynt gwblhau'r hyfforddiant. Mae gan nifer o'r modiwlau yr un dyddiad diweddaru sy'n awgrymu bod sawl modiwl wedi cael eu cwblhau'n electronig ar yr un diwrnod. Gwnaethom ofyn am dystiolaeth i ddangos pryd y bu i'r staff gwblhau eu hyfforddiant a dywedwyd wrthym nad oedd hyn yn bosibl. Mae nifer o bobl wedi cael diagnosis o ddementia yn y gwasanaeth ac nid yw'r staff wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant yn y maes hwn. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 47 | Ni chaiff gwybodaeth bersonol a chyfrinachol y bobl ei storio'n ddiogel. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod gwybodaeth sensitif a chyfrinachol yn cael ei storio'n ddiogel bob amser. | Newydd |
| 35 | Ni chaiff gwiriadau cyn cyflogaeth eu cwblhau'n llawn cyn i aelodau newydd o staff gael eu cyflogi i weithio yn y gwasanaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod proses effeithiol ar waith i wneud yn siŵr bod gan y staff gofal y geirdaon angenrheidiol cyn iddynt ddechrau yn eu swydd a bod pob aelod o'r staff yn meddu ar wiriad Datgelu a Gwahardd cyfredol. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref yn | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | unol â'i Ddatganiad o Ddiben ei hun. Mae angen i'r staff gael hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn deall y broses o hyrwyddo hawliau ac annibyniaeth y bobl a'u grymuso. | |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn nodi'r camau i'w cymryd er mwyn rhoi cyfarwyddyd i'r staff mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac nid ydynt yn cael eu rhoi ar waith o fewn yr amserlen ofynnol bob amser. Rhaid i'r cynlluniau personol gael eu rhoi ar waith er mwyn helpu'r staff i ddarparu gofal priodol a'u cwblhau'n gynhwysfawr i adlewyrchu'r gofal a ddarperir ac unrhyw anghenion newidiol. | Heb Gyflawni |
| 21 | Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn wynebu risg o ganlyniad i arferion gwael gan nad yw'r gofal yn cael ei ddarparu mewn modd cyson. Rhaid i'r broses o oruchwylio'n glinigol wella er mwyn sicrhau urddas y bobl a bod hanfodion gofal yn cael eu hamlygu. | Heb Gyflawni |
| 44 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y safle'n cael ei gynnal i safon briodol er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n derbyn gofal. Rhaid mynd i'r afael â'r materion amgylcheddol mewn perthynas â glendid, storio a methu â chloi drysau er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag niwed a'u bod yn byw mewn amgylchedd cyfforddus a glân. | Heb Gyflawni |
| 56 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae angen gwella'r arferion rheoli heintiau, y broses o waredu cyfarpar diogelu personol a'r defnydd o gynhyrchion ymolchi at ddefnydd pawb. | Heb Gyflawni |
| 66 | Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi methu â dangos yn ddigonol ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau i oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli. Mae'n rhaid atgyfnerthu'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu a goruchwylio er mwyn sicrhau bod y cartref yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar gyfer yr unigolion sy'n cael gofal a chymorth. | Heb Gyflawni |
| 57 | Nid yw'r darparwr wedi cydymffurfio â chyngor yr awdurdod tân, gan beri risg o niwed i rai o'r bobl. | Wedi ei gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Nid yw'r bobl yn cael yr elïau a ragnodwyd ar eu cyfer fel y'u rhagnodwyd. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth argroenol a ragnodir ar eu cyfer. | Heb Gyflawni |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/09/2023